# HUW WILLIAMS ar drywydd trysorau

PROFIAD yw'r athro gorau, meddai rhyw hen air, ac ym myd y casglu mae'n debyg bod hynny'n arbennig o wir.

Fe ddaw rhyw wybodaeth newydd i'r golwg yn hollol annisgwyl ambell dro, a hynny hwyrach ar ôl i'r casglwr druan fethu'n lân â datrys rhyw 'ddirgelwch' ynglŷn â hen lyfr neu gylchgrawn am ran helaeth o oes!

Mi wn yn dda beth yw dysgu rhywbeth o'r newydd am ambell eitem sydd ar fy silff lyfrau, a hynny flynyddoedd lawer wedi imi berswadio fy hun fy mod yn gwybod popeth oedd i'w wybod o'i hanes. Ac y mae hynny'n ddigon i argyhoeddi pob casglwr teilwng o'r enw (pe bai angen argyhoeddi hefyd) mai proses ddi-dor o'r crud i'r bedd yw'r broses o ddysgu unrhyw beth!

Mi garwn nodi enghraifft neu ddwy i geisio profi'r pwynt, a hynny yn y gobaith y bydd i ambell 'ddatguddiad' fod o help i gasglwr arall yn rhywle.

* * *

DROS ddeugain mlynedd yn ôl bellach, mi dreuliais fisoedd lawer yn chwilio am gopi o'r gyfrol *The Welsh Builder on Merseyside* (J.R. Jones) a gyhoeddwyd yn Lerpwl yn 1946. 'Roedd gennyf reswm da ar y pryd dros geisio prynu'r llyfr, ond yn rhyfedd iawn er bod copi ym meddiant un neu ddau o'm cydnabod - a phobl at hynny, yn rhyfedd iawn, na fyddent byth yn prynu llyfr ond o gwmpas tymor y Nadolig - 'roeddwn i'n methu'n lân â dod o hyd i gopi newydd nac ail-law yn unman.

Wrth barhau i chwilio dyma fi un diwrnod yn dod ar draws copi o un o gatalogau'r hen gyfaill craff, J.R. Morris, Caernarfon, a gweld yn hwnnw rhywbeth am lyfr J.R. Jones na wyddwn i mohono o'r blaen, sef nad oedd copïau ar werth "through the trade", gan olygu mae'n debyg, trwy'r sianelau arferol.

Pris y copi gan J.R. Morris oedd pymtheg swllt, a hynny pan oedd copi o'r gyfrol brin *Welsh People of California, 1849-1906* gan Arfonydd i'w gael ganddo am hanner gini, a chopi o ambell lyfr mewn 'Argraffiad Cyfyngedig', megis un o gyfrolau J. Gwenogfryn Evans a gyhoeddwyd yn Llanbedrog neu ym Mhwllheli rhwng 1907 a 1915, i'w gael am ddeuddeg swllt a chwe cheiniog.

Aeth peth amser heibio cyn imi lwyddo i gael copi rhatach na chopi J.R. Morris o'r *Welsh Builder ...*, a sylweddoli mai'n anuniongyrchol gan yr awdur ei hun, o gyfeiriad yn Whitechapel, Lerpwl, y cafodd ambell un y gwyddwn i amdano ei gopi.

Y pris - yn newydd - oedd saith a chwech, gyda'r cludiad chwe cheiniog yn ychwanegol, a throsglwyddwyd yr elw o'r gwerthiant, fel y dysgais yn gymharol ddiweddar, i Ysbyty'r 'Southern' yn Lerpwl.

* * *

## PAM MAE AMBELL I GYFROL MOR BRIN

YM MAES cerddoriaeth y genedl fe all pethau fod yn fwy dyrys a chymhleth o lawer na hyn, a da y gŵyr y casglwr bod ambell eitem o gerddoriaeth sy'n brinnach o lawer heddiw na rhai o'r llyfrau prinnaf y mae dyfal chwilio amdanynt.

O blith yr eitemau o gerddoriaeth gysegredig fe ellid nodi'r gyfrol *Caniadau y Cysegr* gan John Roberts, Henllan, a gyhoeddwyd yn Ninbych gan Thomas Gee yn 1839. Mae hon yn gyfrol eithriadol o bwysig, gan fod ynddi nifer go dda o donau Cymreig a gyfansoddwyd gan rai o gerddorion y genedl yn ystod gwres rhai o'r diwygiadau crefyddol.

Mae gennyf gopi glân o'r gyfrol hon, ond un copi arall a welais mewn 'dwylo preifat', sef ym meddiant y diweddar W. Emrys Cleaver, Caerdydd. Ac y mae'r *Caniadau* ...yn ddiau yn gyfrol brin iawn am y rheswm mai pum cant yn unig o gopïau ohoni a argraffwyd bron ganrif a hanner yn ôl, ac am na chafwyd ail-argraffiad.

Prinnach, os rhywbeth, na chyfrol John Roberts, Henllan - fel yr awgrymais rhyw dro o'r blaen - yw copïau o gyhoeddiadau cerddorol yn dwyn enw'r arloeswr diwyd hwnnw, Owen Williams o Fôn (1774-1839), ac y mae'n arwyddocaol na welais yr un o'r copïau hynny erioed ar werth mewn unrhyw siop, na chyfeiriad at yr un ohonynt mewn catalog llyfrau ail-law.

* * *

GWAITH prin iawn yw *Brenhinol Ganiadau Seion* (yr ail lyfr tonau a gafodd y genedl) a gyhoeddodd Owen Williams mewn dwy gyfrol yn Llundain yn 1817/1819. Gwn fod copïau o'r gwaith hwn yn Llyfrgelloedd Caerdydd ac Abertawe, a hefyd yn y Llyfrgell Genedlaethol, ond un copi'n unig y gwn i amdano mewn 'dwylo preifat', sef ym meddiant y Parchedig Dafydd Wyn Wiliam.

Yn ôl hysbyseb yn y *North Wales Gazette*, Mai 25, 1820, pris cyhoeddi *Brenhinol Ganiadau Seion* oedd gini a hanner (£1.11.6), ac yr oedd hynny ymhell y tu hwnt i gyrraedd gwerin y cyfnod y darparwyd y casgliad ar ei chyfer, ac nid yw'n syndod o gwbl mai ychydig iawn o gopïau a werthwyd.

Mewn rhifynnau eraill o'r *North Wales Gazette* am 1820 fe ddysgwn mai £70 oedd cyflog blwyddyn y curad ym Mhlwy Llanfihangel Glyn Myfyr, ac mai ychydig dros chweugain oedd pris 70 pwys o wenith ym marchnadoedd y genedl.

Ond er mor brin yw *Brenhinol Ganiadau Seion*, mae dau o weithiau eraill gan Owen Williams sy'n brinnach. Un yw ei gyfrol olaf, *The Harp of David, King of Israel* ..., sef amrywiaeth o gerddoriaeth Gymreig ac o gynhyrchion gan Handel, Haydn, ac eraill, a ddarparodd yr awdur yn 1839, pris gini.

Ni wn ond am ddau gopi o'r gwaith hwn sydd wedi eu diogelu, sef un yn Llyfrgell Caerdydd, a'r llall yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac y mae gennyf dystiolaeth reit ddiogel mai 32 yn unig o gopïau a argraffwyd gan Johnson a'i Gwmni yn 10, Brooke Street, Holborn, Llundain.

Gwaith arall gan Owen Williams sy'n rhyfeddol o brin yw'r rhifyn cyntaf o gasgliad o dros gant a hanner o alawon cysegredig a ddarparwyd ganddo yn 1826 dan y teitl *Psalmodia Cambro Britannica* ..., a'i argraffu gan Paine & Hopkins, 69 Cornhill, Llundain.

Yn Llyfrgell Gerdd y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain yn unig y gwelais gopi gwreiddiol o'r gwaith hwn, a'r hyn sy'n rhyfedd yw mai yn nechrau'r flwyddyn 1880 y prynwyd y copi hwnnw gan awdurdodau'r Amgueddfa Brydeinig.

* * *

YM MAES cylchgronau cerddorol y genedl eto, mae gwaith llafurus a phoenus o araf yn wynebu unrhyw gasglwr. Cyhoeddwyd deg o gylchgronau cerdd Cymraeg rhwng 1861 a 1939, ond ni welir ond yn anaml iawn gyflenwad sylweddol o'r un ohonynt yn y siopau ail-law.

Gŵyr y rhai a fu'n casglu copïau o'r *Cerddor* mai diffyg cefnogaeth yn hytrach na'r rhyfel a roes derfyn ar gyhoeddi'r cylchgrawn hwnnw ym mis Hydref 1939. Yn gynharach yn y flwyddyn honno (yn rhifyn Ionawr) fe wnaeth y golygydd apêl daer am ragor o ddarllenwyr, gan awgrymu bod y cylchrediad yn rhy fychan i dalu'r costau argraffu, heb sôn am fedru cydnabod cyfranwyr.

Erbyn i oes *Y Cerddor* ddirwyn i ben, mae'n amheus iawn gen i os oedd mwy na rhyw 200-250 o gopïau yn cael eu gwerthu bob mis, ac fe ddengys hynny pa mor brin erbyn hyn yw setiau cyflawn o'r cylchgrawn.

Ond er mor brin yw'r *Cerddor*, mi garwn awgrymu bod un cylchgrawn cerddorol arall sy'n brinnach. Cylchgrawn yn cynnwys erthyglau ar ganu corawl, yn dwyn yr enw (camarweiniol braidd), *Y Gerddorfa*, yn cael ei olygu gan Dewi Alaw a D. Emlyn Evans, a'i gyhoeddi yn swyddfa Dewi Alaw ym Mhontypridd rhwng 1872 a 1879, yw hwnnw.

Ni welais erioed set o'r *Gerddorfa* ar werth mewn unrhyw siop lyfrau, ac y mae'n arwyddocaol nad oes gasgliad cyflawn ohono yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol ym Mangor, ac mai mewn cyfnod cymharol ddiweddar, o lyfrgell Bob Owen, Croesor, y cafwyd y copïau sydd yno.

* * *

TRIST yw gorfod dweud bod rhai, yn eu hanwybodaeth, yn llosgi copïau o rai o'r cylchgronau cerddorol prin. Ac mi glywais sôn yn ddiweddar am rai pobl adnabyddus a fu wrthi'n ddiwyd yn dinistrio rhai o gylchgronau cerddorol eu tadau, a hynny cyn galw llyfrwerthwr ail-law i brynu'r llyfrau.

Y mae hynny'n esbonio pam na welodd ambell gasgliad da o gylchgronau cerddorol y gwyddem amdano ei ffordd i 'run o'r siopau adnabyddus. Ac y mae'n esbonio hefyd pam fy mod i, ac ambell gasglwr amyneddgar arall y gwn i amdano, wedi treulio dros ddeng mlynedd ar hugain yn ffurfio casgliad cyflawn o'r *Cerddor*, a gyhoeddwyd (dan wahanol deitlau) rhwng 1861 a 1939!


*AR WERTH*

*Canpunt am y cyfan:*

*The Morris Brothers, Vol 1 a 2. Gol. J.H. Davies, rhwymiad lledr cain.*

*Additional Letters of the Morrises of Anglesey, Parts 1 a 2. Gol. Hugh Owen gyda'r mynegion i gyd.*

*Diddanwch Teuluaidd - Lewis Morris (2il arg. 1817) Cyflwr da.*

*Llythyrau at Dafydd Jones o Drefriw. Gol. G.J. Williams.*

*Y Morysiaid - W.J. Gruffydd, 1939.*

*Goronwy Owen - W.D. Williams, 1951*

*Llenor Gaeaf, 1948.*

*Goronwy'r Alltud - Glan Rhyddallt.*

*Ffôn: (0248) 681342.*